

“Offrymasant iddo anrhegion,
aur a thus a myrr”



Cymun Bendigaid ar Gân
ynghyd â bendithio'r Doethion wrth y Preseb
a bendithio sialc i arysgrifio'n cartrefi


Gŵyl yr Ystwyll

2 Ionawr 2022 am 9.15am



Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
– y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau – ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwranddo ar
ddarlleniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw: geiriau
o obaith ac addewid y Nadolig hwn.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llyu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

O'r Ddarllenfa

Pob wythnos, anfonir ebost "O'r Ddarllenfa" at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Mae danysgrifwyr hefyd yn derbyn diweddariadau am ddigwyddiadau a gweithgareddau arbennig. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR isod i dudalen we "O'r Ddarllenfa", a thanysgrifiwch ar waelod y dudalen, neu ewch i cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/



Plant a theluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â themâu'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.


Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



Loywaf o'r ser sydd yn britho'r ffurfafen,
gwasgar ein t'wyllwch, a gwawried y dydd:
seren y dwyrain, rhagflaenydd yr heulwen,
dwg ni i'r fan lle mae'r baban ynghudd.

Gwelwch mor isel ei ben yn y preseb,
disglair yw oerwlith y nos ar ei grud;
moled angylion mewn llety cyn waeled
Frenin, Creawdwr a Cheidwad y byd.



**A dalwn ni iddo'r gorau o'n trysor,
llyisiau o Edom yn offrwm i'n Duw,
gemau o'r mynydd a pherlau o'r dyfnfor,
myrr o'r anialdir, ac aur o Beriw?**

**Ofer y ceisïem ei wen ag anrhegion,
ofer â golud y ddaear yn hael:
gwell ganddo gywir addoliad y galon,
gwell gan yr Iesu yw gweddi y gwael.**

Geiriau

Reginald Heber (1783-1826)

Cyfieithiad

William Williams, Mochnant (1783-1826) a J. M. Job (1867-1938)

Cerddoriaeth | "Epiphany"

J. F. Thrupp (1827-1867)

Parhawn ar ein traed tan ddechrau'r Gloria in excelsis Deo

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Syrthiasant i lawr a'i addoli, ac offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni sydd yn dy goflaid, O Dduw gyda ni,

ond sy'n methu cyd-fyw â'n gilydd;

ni sy'n moli dy gariad diderfyn, O Dduw gyda ni,

ond sy'n syllu'n ddirugaredd ar friw ac anghyfiawnder;

ni sy'n hiraethu am dy fy ddyfod i'n calonnau, O Dduw gyda ni,

ond yn amddifadu'n dyheu, ddaw'n llugoer at y rhodd.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Gloria in excelsis Deo

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

Eisteddwn

Ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd. Moliannwn di, bendithiwn di, addolwn di, gogoneddwn di, diolchwn i ti am dy fawr ogoniant. Arglwydd Dduw, Frenin nefol, Dduw Dad Hollalluog. O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist; O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, sy'n dwyn ymaith bechod y byd, trugarha wrthym; tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, derbyn ein gweddi. Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd; ti yn unig yw'r Arglwydd; ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

Cerddoriaeth

Offeren Deiniol, Alan Rees (1941-2005)

Codwn ar ein traed

Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

O Dduw graslon, a amlygaist dy unig Fab i bobloedd y ddaear trwy arweiniad seren i fod yn oleuni i'r holl genhedloedd: arwain ni, sy'n dy adnabod yn awr drwy ffydd, i'th bresenoldeb sanctaidd lle y cawn ganfod dy ogoniant wyneb yn wyneb; trwy'r un Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Eisteddwn



Gair

Salmyddiaeth



Y Arabia boeth a Seba 'nghyd,
offrymant eu trysorau drud.

R Arabia boeth a Seba 'nghyd,
offrymant eu trysorau drud.

O Dduw, rho dy farnedigaeth i'r brenin, a'th gyfiawnder i fab y brenin.

Bydded iddo farnu dy bobl yn gyfiawn, a'th rai anghenus yn gywir.

Doed y mynyddoedd â heddwch i'r bobl, a'r bryniau â chyfiawnder.

Bydded iddo amddiffyn achos tlodion y bobl, a gwaredu'r rhai anghenus, a dryllio'r gorthrymwr.

R Arabia boeth a Seba 'nghyd,
offrymant eu trysorau drud.



Bydded iddo fyw tra bo haul a chyhyd â'r lleuad, o genhedlaeth i genhedlaeth.

Bydded fel glaw yn disgyn ar gnwd, ac fel cawodydd yn dyfrhau'r ddaear.

Bydded cyfiawnder yn llwyddo yn ei ddyddiau, a heddwch yn ffynnu tra bo lleuad.

Bydded iddo lywodraethu o fôr i fôr, ac o'r Ewffrates hyd derfynau'r ddaear.

R: Arabia boeth a Seba 'nghyd, offrymant eu trysorau drud.

Bydded i'w wrthwynebwy'r blygu o'i flaen, ac i'w elynion lyfu'r llwch.

Bydded i frenhinoedd Tarsis a'r nynsoedd ddod ag anrhegion iddo,

Ac i frenhinoedd Sheba a Seba gyflwyno eu teyrnged.

Bydded i'r holl frenhinoedd ymostwng o'i flaen, ac i'r holl genhedloedd ei wasanaethu.

R: Arabia boeth a Seba 'nghyd, offrymant eu trysorau drud.

Salm 72:1-11
Cerddoriaeth
Simon Ogdon

Darlleniad

Darlleniad o'r lyfr Eseia.

Dy yma a ddywed eich Sanct: Cod, llewyrcha, oherwydd daeth dy oleuni; llewyrchodd gogoniant y Sanctaidd Un arnat. Er bod tywyllwch yn gorchuddio'r ddaear, a'r fagddu dros y bobloedd, bydd y Bywiol Un yn llewyrchu arnat ti; gwelir gogoniant y Bythol Un arnat. Fe ddaw'r cenedloedd at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr. Cod dy lygaid ac edrych o'th gwmpas; y maent i gyd yn ymgasglu i ddod atat, yn dwyn dy blant o bell, ac yn cludo dy rai bychain ar eu hystlys; pan weli, bydd dy wyneb yn gloywi, bydd dy galon yn llawn cyffro a llawenydd; troir atat gyflawnder y môr, a daw golud y cenedloedd yn eiddo iti. Bydd gyrroedd o gamelod yn

dy orchuddio, daw camelod masnach o Midian, Effa a Sheba;
byddant i gyd yn cludo aur a thus, ac yn mynegi moliant Duw.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Eseia 60:1-6

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu'r Efengyllydd yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



∇ Halelwia.

℞ Halelwia.

Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli.

℞ Halelwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✕ Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef. Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni. Eu hateb oedd, "Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd: 'A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda, canys ohonot ti y daw allan arweinydd a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.'" Yna galwodd Herod y seryddion yn ddirgel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos. Anfonodd hwy i Fethlehem gan ddweud, "Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo,

rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a'i addoli." Wedi gwranddo ar y brenin aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn. A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben. Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr. Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall."

Dyma Efengyl ein Gwarddwr.

Moliant i ti, O Grist.

Mathew 2:1-12

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Eisteddwn wrth i'r gweinidogion agosáu at y Preseb

Bendithio'r Doethion wrth y Preseb

O Oleuni'r byd, daeth y Doethion â thus i'th sancteiddio.
Bendithia'r Gadeirlan hon, Andrew ein Esgob ac Archesgob
Cymru, a'n pererindod ninnau tuag at sancteiddrwydd ddyfnach,
fel y bo i'n gweddiâu godi o'th flaen fel thus ar losg.

Ŵ O Dduw, yn dy drugaredd,

R **Gwrando ein gweddi.**

O Oleuni'r byd, daeth y Doethion ag aur i'th goroni. Bendithia
ein cymunedau, pawb sy'n eu gwasanaethu a phawb mewn
awdurdod, a'n hymdrechion ninnau i fyw er lles ein gilydd fel y
bwriwn ein coronau meidrol oll o'th flaen.

Ŵ O Dduw, yn dy drugaredd,

R **Gwrando ein gweddi.**

O Oleuni'r byd, daeth y Doethion â myrr i'th bêr-eneinio.
Bendithia bawb sy'n dioddef ar yr adeg hon, pawb sy'n fregus,
a phawb sy'n galaru. O'th drugaredd, cofleidia bawb sydd wedi
marw – y rhai a fu farw'n ddiweddar, y rhai y mae eu gŵyl
goffa i'w chadw yr adeg hon, a phawb y bu i ni eu caru a'u
colli – fel y cyfodir hwn, gyda ni, i'r nefoedd trwy rinweddau dy
Ddioddefaint; tydi a ddaeth er ein beiau ni i lawr i'n daear.

Ŵ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

Ŵ ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R **A chyfodi mewn gogoniant.**

Iesu Grist, Goleuni'r byd, gogoneddir rhodd dy gariad gan
y seren ger bron doethineb yr holl oesoedd. ✕ Bendithia'r
Doethion hyn, a phawb sy'n syllu ar y Preseb hwn. Boed i ni,
sydd yn yr un modd wedi ein tywys gan dy oleuni, ganfod
rhyfeddod dy bresenoldeb ac adnabod gobaith y Gair a wnaed
yn gnawd, yng nghrud ein bywydau ninnau; trwy'r un Iesu Grist
ein Gwardwr.

Amen.

Codwn ar ein traed

Cymun

Emyn



Peraidd ganodd sêr y bore
ar enedigaeth Brenin nef;
Doethion a bugeiliaid hwythau
deithient i'w addoli ef:
gwerthfawr drysor,
yn y preseb Iesu gaed.

Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
dyma un sy'n caru maddau
i bechaduriaid mawr eu bai;
diolch iddo

byth am gofio llwch y llawr.

Brenin tragwyddoldeb ydyw,
Llywodraethwr dae'r a ne';
byth ni wêl tylwythau'r ddaear
Geidwad arall ond efe;
mae e'n ddigon,
y tragwyddol Fywyd yw.

Geiriau

Morgan Rhys (1716-1779)

Cerddoriaeth | "Caersalem"

Robert Edwards (1796-1862)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Ac yn awr dathlwn ddatguddiad dy ogoniant a amlygwyd drwy'r Gair a ddaeth yn gnawd. Addolodd y doethion ef yn frenin yr holl genhedloedd. Ar lan yr lorddonen gorchymynnaist ni i wrando ar dy annwyl Fab wrth iddo gyfodi o ddŵr y bedydd. Yng Nghana amlygodd ei allu i ddatguddio'r greadigaeth newydd yn y dŵr a drowyd yn win. Ef yw'r eneiog, dy Feseia di, sy'n dwyn gobaith ac iachawdwriaeth i'r byd.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Offeren Deiniol, Alan Rees (1941-2005)

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bôn't i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Yn dy eni di, O Dduw, aileniir y byd; dy gorff toredig yn gyflawn yn adnewyddiad dy greadigaeth.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Offeren Deiniol, Alan Rees (1941-2005)

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno o'r Afrlladen Sagrafennol yn unig ar hyn o bryd

Motét

“Pan fydd yn Deyrn down â rhoddion Teyrn iddo,
myrr â'i felystra, cylch euraid fel gem;
gŵn hudol hardd,” meddai'r eneth wrth Joseff:
hardd yw â'i baban ar Ros Bethlehem.

Disglair yw'r rhos dan yr awyr serennog:
awel fel persawr, pob seren yn em,
Mair swyna'i gwsg, a daw seiniau hwiangerdd
yng nghân y bugail ger côr Bethlehem.

Pan fydd yn Deyrn dônt i'w wisgo mewn amdo,
myrr yn fedd-ennaint, a choron goed lem;
gorwedd mae 'nawr, breichiau Mair iddo'n gysur:
ysgafn ei huno ar Ros Bethlehem.

Yma caiff hedd a daw saib i freuddwydio
dan gysgod bustych yn drymion eu trem,
Mair fwyn a'i gâr, a daw seiniau hwiangerdd
yng nghân y bugail ger côr Bethlehem.

Geiriau

Bruce Blunt (1899-1957)

Cyfieithiad ar gyfer Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor

Siôn Aled

Cerddoriaeth

Peter Warlock (1894-1930)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

Emyn

The musical score is written in G major (one sharp) and 4/4 time. It consists of four staves of music. The first staff begins with a treble clef and a 4/4 time signature. The melody is simple and hymn-like, with a repeat sign after the second measure. The second staff continues the melody with a repeat sign. The third and fourth staves provide harmonic accompaniment with chords and single notes. The piece concludes with a double bar line.

Daeth Llywydd nef a llawr
i wisgo dynol gnawd;
Hosanna, Arglwydd mawr,
a henffych well, ein Brawd!
Clodforwn Dduw a'n Ceidwad hael,
a welwyd yn y preseb gwael.

Mewn cnawd i'n tynnu'n rhydd
daeth y tragwyddol Air;
O henffych well i'r dydd
y ganed ef o Fair!
Clodforwn Dduw a'n Ceidwad hael,
a welwyd yn y preseb gwael.

Pa dafod, neu pa ddawn,
a fedd angelaidd lu
a draetha byth yn llawn
am ras ein Ceidwad cu?
Clodforwn Dduw a'n Ceidwad hael,
a welwyd yn y preseb gwael.

Mae cariad yn ei wedd
at wael golledig fyd;
cyfiawnder llym a hedd
yn ymgusanu 'nghyd.
Clodforwn Dduw a'n Ceidwad hael,
a welwyd yn y preseb gwael.

Geiriau
Thomas Jones (1756-1820)
Cerddoriaeth | "Rhosymedre"
J. D. Edwards (1805-1885)

Parhawn ar ein traed

Bendithio sialc ac ymadael

Mae'n cymorth yn enw Duw.

A wnaeth nef a daear.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

✠ Bendithia, O Dduw, y creadur hwn o sialc
i'w wneud yn ddyrchafol inni.

Caniatâ y bydd i ni sy'n ei ddefnyddio mewn ffydd,
a chydag ef yn arysgrifio ar fynedfa ein cartrefi
enwau dy Ddoethion bendigedig, Caspar, Melchior a Balthasar,
trwy rinweddau Goleuni'r byd,
drigo dan gysgod dy adain ac yn llannerch dy gariad
holl ddyddiau'n bywyd;
trwy'r un Iesu Grist ein Gwarddwr.

Amen.

Bydded i Grist,
a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol,
trwy gymryd ein cnawd ni,
eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Prelwd Gorawl ar "Wie schön leuchtet der Morgenstern",

Flor Peeters (1903-1986)

Hysbys

Sialc ar gyfer ein cartrefi

Fel y daeth y Doethion i'r Stabl ym Methlehem, cartref dros dro'r Teulu Sanctaidd, gan ganfod ynd fendith amhisiadwy, felly mae'n draddodiadol inni weddio am fendithion Duw ar ein cartrefi yn ystod wythnos Gŵyl yr Ystwyll ac ar drothwy'r Flwyddyn Newydd. Er mwyn ein helpu i wneud hyn, caiff sialc ei fendithio – arwydd ein bod ni'n llwch y llawr, ond wedi'n galw i undeb â Christ. Rydyn ni'n defnyddio'r sialc i arysgrifio llythrennau, rhifau, seren a chroesau uwchlaw neu wrth ymyl ein trothwy. Mae'r rhifau yn nodi'r Flwyddyn Newydd, a'r llythrennau yw llythrennau cyntaf enwau'r Doethion a thalfyriad o'r erfyniad Lladin "*Christus mansionem benedicat*," "**Bendithied Crist y cartref hwn.**" Ewch â sialc gyda chi heddiw, a gweddïwch y geiriau byr hynny ar ôl arysgrifio'ch trothwy fel a ganlyn:

2 0 * C * M * B * 2 2

Maes parcio

Bydd trwyddedau ar gyfer parcio yn ystod yr wythnos ym maes parcio'r Gadeirlan yn 2022 ar gael wedi gwasanaethau'r Sul o ddydd Sul 9 Ionawr. Gofynnir am rodd. Yn y cyfamser, nid oes angen trwyddedau ar gyfer parcio yn y maes parcio ar unrhyw adeg; ac ni fydd angen trwyddedau i barcio ar ddydd Sul nes bydd rhybudd pellach.

Oddi wrth yr Is-Ddeon

Yn anffodus, rwy'n gorfod hunan-yngysu ar hyn o bryd. Rwy'n du hwnt o ddiolchgar i'n cydweithwyr am eu cymorth ac am sefyll yn y bwlch er gwaetha popeth, dyma ddymuno blwyddyn newydd dda i chwi oll. *S.Rh.E.*

Defod Sancteiddrwydd

Llithoedd a Charolau'r Ystwyll yng Ngolau Cannwyll

Dydd Sul 9 Ionawr am 5.30pm

Yr olaf o'n tair defod draddodiadol, dirdynol a cherddorol ar nos Sul yn ystod cyfnod y Nadolig. Dewch yn llw – bu'r ddwy ddefod flaenorol yn wych.

Ceremony of Carols

Benjamin Britten | Côr y Gadeirlan

Dydd Sadwrn 29 Ionawr am 5.30pm

Dewch i glywed lleisiau uchaf Côr y Gadeirlan mewn perfformiad ddirdynol yng ngolau cannwyll o gylch rhyfeddol carolau a gweithiau eraill Benjamin Britten – y ffordd berffaith i ddod â Thymor y Nadolig i ben. Bydd Alys Bailey-Wood yn canu'r delyn. Tocynnau (£10 / £5 / plant yn rhad ac am ddim) ar gael ar y drws.

Yr wythnos nesaf hon

Yn ddyddiol, Llundun i Wener

11am-3pm Cadeirlan ar agor i bawb

12.30pm Cymun Bendigaid | Holy Eucharist

Dydd Iau

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Sul 9 Ionawr | Gŵyl Bedydd

Crist

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

11am Choral Holy Eucharist

5.30pm Defod Santeiddrwydd | Ceremony of Holiness

Yn ein gweddïau

Yn glâf Alun Hawkins, offeiriad; Lis Perkins

A fu farw'n ddiweddar Michael Clarke; Desmond Tutu, esgob; Bob Sully

Gŵyl goffa —

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi. Y Nadolig hwn, yn ei prif wasanaethau, byddwn hefyd yn rhoi rhodd o'n casgliadau i'r Helusen Nadolig, sef gwaith hanfodol Undeb y Mamau â goresgynwyr trais domestig.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

3 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio'ch cerdyn neu'ch ffôn.

3 Rhowch rodd arian parod yn un o'r basgedi casglu rhoddion yng nghefn Corff yr Eglwys heddiw.

4 I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda'r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am "Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth" a dewis "Bro Deiniol" o dan "Buddiolwr".

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau a'n gwaith hanfodol.

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Y Parchediacaf Andrew T. G. John
esgob.bangor@eglwysyngnghymru.org.uk

Is-Ddeon
Canon Siôn B. E. Rhys Evans
sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon Tracy Jones
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd
Joe Cooper
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd
Martin Brown
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu
Naomi Wood
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Darlleneydd ac Ystlydd
Elma Taylor

Clerc y Cabidwl
Robert Jones
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws
Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Y Parchg Ddr John Prysor-Jones, y Tra Pharchg Athro Gordon McPhate, y Parchg Peter Kaye

Pensaer y Gadeirlan
Simon Malam

Rhif elusen 1158340

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Ar y clawr ceir cerfluniau Almaeneg o un o'r Doethion o weithdy Hans Thoman (fl. c.1514-1525) yn Amgueddfa'r Met.

